# Adeiledd yr atom

## Amcanion dysgu

1 Disgrifio'r model o'r atom sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd.

2 Pennu nifer y gronynnau is-atomig mewn atom niwtral.

3 Cofio priodweddau'r gronynnau is-atomig: protonau, niwtronau ac electronau.

## Cyflwyniad

Adeiledd atomig yw un o'r pynciau pwysicaf mewn cemeg. Mae llawer o bynciau eraill yn dibynnu ar ddeall adeiledd yr atom a phriodweddau'r gronynnau is-atomig.

## Cyfarwyddiadau

1. Gludwch y stribedi strwythur ar ymyl eich llyfr ymarfer/papur.
2. Dilynwch yr awgrymiadau i ysgrifennu crynodeb o adeiledd atomig. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ddefnyddio gwerslyfr, canllaw adolygu neu wefan i'ch helpu. Ysgrifennwch mewn brawddegau llawn, cofiwch aralleirio'r cwestiwn yn eich ateb a defnyddiwch eiriau allweddol priodol.
3. Atebwch y cwestiwn dilynol isod i ddefnyddio eich gwybodaeth am adeiledd atomig a gronynnau is-atomig mewn cyd-destun newydd.

## Geiriau allweddol

Defnyddiwch y geiriau allweddol hyn yn eich ymatebion:

• atom • mater • proton • electron • niwtron • niwclews • orbitio/orbit • rhif atomig • rhif màs • ïon • isotop

## Cwestiwn dilynol

Eglurwch, gan gyfeirio at ronynnau is-atomig, pam mae gan atom potasiwm wefr niwtral gyffredinol.

© 2024 Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol

| Stribed strwythur<br>Adeiledd atomig | Stribed strwythur<br>Adeiledd atomig | Stribed strwythur<br>Adeiledd atomig | Stribed strwythur<br>Adeiledd atomig | Stribed strwythur<br>Adeiledd atomig |
|---|---|---|---|---|
| Diffiniwch y term atom. | Diffiniwch y term atom. | Diffiniwch y term atom. | Diffiniwch y term atom. | Diffiniwch y term atom. |
| Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model o atom sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model o atom sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model o atom sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model o atom sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd. | Lluniadwch ddiagram wedi'i labelu o'r model o atom sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd. |
| Lluniwch dabl i gymharu'r tri gronyn is-atomig, eu masau cymharol a'u gwefrau a'u lleoliad yn y model atomig. | Lluniwch dabl i gymharu'r tri gronyn is-atomig, eu masau cymharol a'u gwefrau a'u lleoliad yn y model atomig. | Lluniwch dabl i gymharu'r tri gronyn is-atomig, eu masau cymharol a'u gwefrau a'u lleoliad yn y model atomig. | Lluniwch dabl i gymharu'r tri gronyn is-atomig, eu masau cymharol a'u gwefrau a'u lleoliad yn y model atomig. | Lluniwch dabl i gymharu'r tri gronyn is-atomig, eu masau cymharol a'u gwefrau a'u lleoliad yn y model atomig. |
| Dewch o hyd i ocsigen yn y tabl cyfnodol.<br><br>Eglurwch sut mae pennu nifer y:<br><br>• protonau<br>• electronau<br>• niwtronau | Dewch o hyd i ocsigen yn y tabl cyfnodol.<br><br>Eglurwch sut mae pennu nifer y:<br><br>• protonau<br>• electronau<br>• niwtronau | Dewch o hyd i ocsigen yn y tabl cyfnodol.<br><br>Eglurwch sut mae pennu nifer y:<br><br>• protonau<br>• electronau<br>• niwtronau | Dewch o hyd i ocsigen yn y tabl cyfnodol.<br><br>Eglurwch sut mae pennu nifer y:<br><br>• protonau<br>• electronau<br>• niwtronau | Dewch o hyd i ocsigen yn y tabl cyfnodol.<br><br>Eglurwch sut mae pennu nifer y:<br><br>• protonau<br>• electronau<br>• niwtronau |
| Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o'r **un** elfen. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o'r **un** elfen. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o'r **un** elfen. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o'r **un** elfen. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o'r **un** elfen. |
| Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o elfennau **gwahanol**. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o elfennau **gwahanol**. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o elfennau **gwahanol**. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o elfennau **gwahanol**. | Gan gyfeirio at eu hadeiledd atomig, disgrifiwch yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng atomau o elfennau **gwahanol**. |